# PAPURAU BUSNES

## 9 Tachwedd 1999

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

Pwnc ar gyfer Dadl Fer a gyflwynwyd ar 2 Tachwedd 1999

**John Marek (Wrecsam);** Mynediad i wybodaeth yn y Cynulliad ac mewn Llywodraeth Leol. (NDM118VB)

**CYNIGION A GYFLWYNWYD 4 Tachwedd 1999**

**Andrew Davies ( Gorllewin Abertawe ) ;**

Cynnig bod y Cynulliad:

- bod gweithredu Deddf Iechyd 1999* yng Nghymru wedi cynorthwyo'r NHS a'i bartneriaid i symud ymlaen mewn modd cadarnhaol i'r mileniwm newydd;
- yn croesawu cyfraniad arwyddocaol y Ddeddf at hyrwyddo partneriaethau gwirioneddol rhwng yr awdurdodau iechyd, ymddiriedolaethau'r NHS, Grwpiau Iechyd Lleol a'u haelodau, yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Gwneir hyn mewn ffordd sy'n gwasanaethu pobl Cymru orau; sef sicrhau bod asesu a diwallu anghenion cleifion, defnyddwyr a gofalwyr wrth graidd eu hamcanion; beth bynnag fo'r gwasanaethau sydd eu hangen; ac
- yn derbyn yr angen am ymagwedd strategol oddi mewn i'r Cynulliad i arwain arhoi cymorth i'r holl gyfranddeiliaid yn y broses o gyflwyno'r agenda hon sy'n llawn her.

**Mae copi ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad ac ar y rhyngrwyd yn* http://www.hmso.gov.uk/acts/acts1999/19990008.htm

(NDM121VB)

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Gwelliant 1

Ychwaneger paragraff 5.4A newydd ar ôl paragraff 5.4:

"5.4A Lle na chafwyd gwrthwynebiad gan o leiaf 10 Aelod, bydd y Llywydd yn caniatáu i un Aelod o bob grp gwleidyddol gyflwyno sylwadau cryno ar ddatganiad y Trefnydd a bydd wedyn yn caniatáu i'r Trefnydd ymateb."

Gwelliant 2

Ym mharagraff 6.3 (iii) dilëer "wneud cynnig" a doder "gynnig pwnc" yn ei le.

Gwelliant 3

Ym mharagraff 6.12

i) dilëer "(yn hytrach na chynnig)"

ii) dilëer "dri diwrnod gwaith" a doder "bum niwrnod gwaith" yn ei le.

Gwelliant 4

Ychwaneger paragraff 6.12A newydd ar ol paragraff 6.12:

"6.12A Ni chaniateir cyflwyno unrhyw gynnig neu welliant sy'n cyfeirio at unrhyw dddogfen oni bai bod y ddogfen ar gael i bob Aelod pryd y cyflwynir y cynnig neu cyn hynny. Ystyrir bod dogfen ar gael i bob Aelod os bydd Aelodau yn medru cael mynediad ati trwy gyfrwng electronig, neu os trefnwyd bod copi caled ar gael i'r Aelodau neu (lle bo maint y ddogfen yn golygu nad yw hi'n rhesymol ymarferol i sicrhau ei bod ar gael trwy ddulliau eraill) os yw copi wedi'i adneuo yn y Llyfrgell. Bydd rhaid i Aelod sy'n cyflwyno cynnig neu welliant y mae'r paragraff hwn yn berthnasol iddo ddatgan a sicrhawyd bod dogfen y cyfeirir ati ar gael i'r Aelodau a sut y gwnaed hynny. Os yw'n hysbys i'r Llywydd fod cynnig neu welliant wedi ei gyflwyno yn groes i ofynion y paragraff hwn, ni fydd y Llywydd yn caniatáu iddo gael ei drafod nes bod y ddogfen wedi'i rhoi ar gael i bob Aelod a nes bydd amser pellach y mae'r Llywydd yn barnu ei fod yn briodol wedi mynd heibio."

Gwelliant 5

Ym mharagraff 6.13 dilëer "ddau diwrnod gwaith" a doder "dri diwrnod gwaith" yn ei le.

Gwelliant 6

Dilëer paragraffau 6.20 i 6.23 a doder yn eu lle baragraffau newydd:

"6.20 Bydd y Llywydd yn cynnal pleidlais ar gynnig neu welliant trwy:

i. gyfrwng electronig; neu yn niffyg hynny
ii. alw cofrestr o'r Aelodau yn nhrefn yr wyddor.

6.21 Os bydd o leiaf 3 Aelod, cyn i bleidlais gael ei chynnal, yn gofyn am hynny, cenir y gloch. Os bydd pleidleisiau yn cael eu cynnal un yn syth ar ôl y llall, ni fydd rhaid canu'r gloch mwy nag unwaith. Ar ôl ysbaid o bum munud, cymerir y bleidlais neu'r pleidleisiau. Bydd y Llywydd yn datgan bod y bleidlais wedi cau ac yn cyhoeddi'r canlyniad. Cynhwysir enwau'r Aelodau sy'n pleidleisio, gan gynnwys y rhai sy'n nodi eu bod yn ymatal, yn yr adroddiadau ar drafodion llawn y Cynulliad. Sicrheir hefyd y bydd adroddiad o'r bleidlais ar gael cyn diwedd y sesiwn y cymerwyd y bleidlais ynddi.

6.22 Ni fydd pleidlais yn ddilys oni fydd o leiaf 10 Aelod yn cymryd rhan. Os bydd llai na 10 Aelod yn cymryd rhan, cedwir y busnes hwnnw tan y cyfarfod llawn nesaf ac aiff y Cynulliad ymlaen i'r eitem nesaf o fusnes. Wrth ddyfarnu nifer yr Aelodau sy'n cymryd rhan mewn pleidlais, cymerir bod y Llywydd a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ymatal yn cymryd rhan."

(*Ni bydd angen 6.23 mwyach*)

<u>Gwelliant 7</u>

Doder, ar ol y geiriau "dau gwestiwn" ym mharagraff 6.28:
"(neu, yn achos y Prif Ysgrifennydd, ddim mwy nag un cwestiwn)"

<u>Gwelliant 8</u>

Dilëer paragraff 6.36 a doder yn ei le:

"6.36 Bydd yr Aelod y tynnwyd ei enw yn hysbysu'r Llywydd o'r pwnc o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y ddadl yn ei gylch. "

<u>Gwelliant 9</u>

Dilëer paragraff 22.24 a doder yn ei le:

"22.24
(i) Pan fydd Gorchymyn drafft wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad, caiff ei wneud drwy gael ei lofnodi.

ii. Pan fydd Cabinet y Cynulliad wedi penderfynu o dan baragraff 22.25 y dylid datgymhwyso’r gofyniad i Orchymyn drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad a’i gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad, llofnodir Gorchymyn drafft pan fydd wedi cwblhau yn llwyddiannus unrhyw weithdrefnau sy’n ofynnol o dan y Rhan hon o’r Rheol Sefydlog hon sydd heb eu datgymhwyso o dan baragraff 22.25.
i. Y rhai sydd ag awdurdod i lofnodi Gorchymyn a wneir o dan y Rhan hon o’r Rheol Sefydlog hon yw’r Llywydd, y Dirprwy Llywydd, y Prif Ysgrifennydd ac unrhyw Ysgrifennydd Cynulliad arall ond ni chaiff neb ond y Llywydd lofnodi Gorchymyn oni bai fod y Llywydd yn absennol. Yn absenoldeb y Llywydd dylai Gorchymyn gael ei lofnodi gan y Dirprwy Llywydd. Yn absenoldeb y Llywydd a’r Dirprwy Llywydd caiff y Prif Ysgrifennydd neu, yn absenoldeb y Prif Ysgrifennydd unrhyw Ysgrifennydd Cynulliad arall, lofnodi Gorchymyn. Ni fyddai’n effeithio ar ddilysrwydd gwneud y Gorchymyn petasai’r sawl a lofnododd Gorchymyn yn absenoldeb y Llywydd heb fod yr un mwyaf priodol i wneud hynny yn unol â rheolau’r is-baragraff hwn. "

Gwelliant 10

Ym mharagraff 22.59 (iii) dilëer "dau ddiwrnod gwaith" a doder "pum niwrnod gwaith" yn ei le.

(NDM122VB)